

ARCHWILIO CYFRIFON 2020/21

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

GWASANAETH CYDWEITHFA FABWYSIADU Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

HYSBYSIR TRWY HYN:

1. O ddydd Llun 9 Awst 2021 tan ddydd Gwener 3 Medi 2021, gan gynnwys y ddau ddiwrnod hynny, rhwng 9.00am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd lau a rhwng 9.00am a 4.00pm ar ddydd Gwener. caiff unrhyw un sydd â diddordeb edrych ar a derbyn copiâu o'r cyfrifon ac unrhyw geisiadau rhesymol am fanylion ychwanegol ar gyfer y Cyngor uchod ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Bydd y cyfrifon ar gael ar wefan y Cyngor. Dylid gwneud ceisiadau am wybodaeth yn y lle cyntaf i accountsonevale@valeofglamorgan.gov.uk.
2. O 6 Medi 2021 ymlaen, rhwng 9.00am ac 4.30pm ac wedi hynny tan ddiwedd yr archwiliad, bydd cynrychiolydd o'r Archwilydd (Archwilio Cymru) ar ran, yr Archwilydd Cyffredinol, (Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ), ar gael i ateb unrhyw gwestiynau am y cyfrifon sydd gan unrhyw etholwr Llywodraeth Leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi. Caiff unrhyw etholwr neu'i gynrychiolydd ddod â gwrthwynebiadau gerbron yr Archwilydd am unrhyw un o'r cyfrifon mewn perthynas â'r canlynol
 - (i) unrhyw fater y gallai'r Archwilydd ei drin o dan adran 32 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (sef unrhyw eitem anghyfreithlon yn y cyfrifo);
 - (ii) unrhyw fater arall y mae hawl i'r Archwilydd gyflwyno adroddiad amdano er lles y cyhoedd o dan adran 22 o'r Ddeddf
3. Ni fydd yn bosibl gwrthwynebu unrhyw fater heb roi rhybudd ysgrifenedig yn gyntaf i'r Archwilydd Penodedig ac egluro sail y gwrthwynebiad, a dylid anfon copi o'r rhybudd hwnnw at Reolwr-gyfarwyddwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri, sef y cyngor sy'n destun archwiliad cyfrifon ar hyn o bryd.

Dyddiedig 23 Gorffennaf 2021

Rob Thomas

Rheolwr Gyfarwyddwr

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltw'n

Y Barri

CF63 4RU